




Arolygiad o Wasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Hafan Wen, Wreccsam

Dyddiad arolygu: 14, 15 ac 16
Ionawr 2019

Dyddiad cyhoeddi: 18 Ebrill 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	21
4.	Beth nesaf?	24
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol	26
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	27
	Atodiad B – Cynllun gwella	28

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn cael gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl annibynnol dirybudd o Hafan Wen ar 14, 15 ac 16 Ionawr 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un arolygydd o AGIC, dau adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol (un ohonynt oedd adolygwr enwebedig y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ar adeg yr arolygiad nid oedd unrhyw gleifion a oedd yn cael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn byw yn Hafan Wen.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000, gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru. Lle y bo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cydymffurfio â Deddf Iechyd Meddwl (1983), Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010), Deddf Galluedd Meddyliol (2005) a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd pwyslais ar y gofal cyfyngol lleiaf er mwyn helpu'r cleifion i adsefydlu a gwella a helpu'r cleifion i gynnal a datblygu eu sgiliau.

Roedd y staff yn gadarnhaol am y cymorth roeddent yn ei gael a'r cyfleoedd hyfforddiant oedd ar gael.

Gwelsom fod trosolwg da gan y rheolwyr o'r gwasanaeth a bod polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith er mwyn helpu i ddarparu gofal yn ddiogel.

Gwelsom fod angen gwelliannau o ran rhai agweddau ar y gwasanaeth ac, yn enwedig, fod angen adnewyddu'r llety.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhyngweithio da gan y staff
- Therapi a chymorth adfer
- Cynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Dogfennaeth a chadw cofnodion
- Hyfforddiant staff
- Gwaith tîm amlddisgyblaethol
- Trosolwg gan y rheolwyr
- Archwilio a rhoi gwybod.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adnewyddu
- Glanhau
- Gwybodaeth am eiriolaeth

- Asesiadau risg o ran pwyntiau clymu

Gwnaethom nodi achosion o dorri rheoliadau yn ystod yr arolygiad hwn yn ymwneud â chynnal a chadw a glendid yr adeilad, asesiadau risg o ran pwyntiau clymu a rheoli heintiau. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad B. Er nad yw hyn wedi arwain at roi hysbysiad diffyg cydymffurfio, disgwylir i'r darparwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, oherwydd, os nad yw'n gwneud hynny, gallai arwain at beidio â chydymffurfio â rheoliadau.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae CAIS Cyf wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaethau ysbyty annibynnol yn Hafan Wen, Watery Road, Wrecsam.

Cofrestrwyd Hafan Wen gyntaf ym mis Ionawr 1997, ac mae'n darparu amrywiaeth o raglenni dadwenwyno cyffuriau ac alcohol i gleifion y GIG a rhai preifat. Mae'r gwasanaeth yn cynnig rhaglen therapiwtig gynhwysfawr, gan archwilio ffordd o fyw a dulliau ymdopi.

Trefnir yr uned dros ddau lawr ac mae'n cynnwys ystafelloedd unigol, gyda thoiled a chyfleusterau ymolchi en-suite ym mhob un, ardal gymunol (gan gynnwys ardaloedd a ddynodwyd at ddefnydd dynion neu fenywod), ystafell gelf/cyfrifiadurol, ac ystafell ymlacio/tawel, cegin, golchdy a swyddfeydd gweinyddol. Roedd adeilad ar wahân hefyd ger y brif uned a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau therapiwtig y cleifion a chyfarfodydd grŵp.

Caiff y driniaeth ei harwain gan seiciatrydd ymgynghorol a rheolwr y gwasanaeth, gyda chefnogaeth staff nyrsio cymwysedig bob awr o'r dydd a'r nos.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys rheolwr, dirprwy reolwr, prif nyrs, nyrs sy'n rhagnodi, gweithwyr cymorth gofal iechyd, staff therapiwtig ac adfer, seiciatryddion, a staff arlwyyo. Roedd y staff glanhau yn cael eu cyflogi gan y bwrdd iechyd ac yn darparu gwasanaethau yn Hafan Wen o dan gontract.

Ar adeg yr arolygiad roedd 14 o gleifion yn byw yno, y cafodd pedwar ohonynt eu derbyn i Hafan Wen yn ystod yr arolygiad.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Drwy gydol ein harolygiad, gwelsom y staff yn trin y cleifion â pharch ac urddas.

Cawsom adborth cadarnhaol am y gofal a'r driniaeth yr oedd y cleifion yn eu cael.

Nodwyd bod angen adnewyddu'r llety cyfan a bod angen gwella safon y glendid mewn rhai rhannau o'r uned.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod trefniadau ar waith i helpu cleifion i addasu a gwella eu hiechyd, eu llesiant a'u hannibyniaeth.

Drwy siarad â'r staff a'r cleifion ac edrych ar gofnodion gofal y cleifion, gwelsom fod y gofal wedi ei gynllunio i gynnwys mewnbwn y meddygon, y nyrsys a'r staff therapiwtig. Nod y gofal a roddir yw helpu'r cleifion i ddadwenwyno yn ddiogel ac i wella eu hiechyd a'u llesiant.

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod tîm y staff yn garedig ac yn eu hannog a'u cymell drwy'r broses ddadwenwyno. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd eu bod wedi datblygu grwpiau o ffrindiau a bod y rhain hefyd yn ffynhonnell o gymorth a chymhelliant iddynt yn ystod eu harhosiad yn yr uned.

Roedd nifer o daflenni hybu iechyd a manylion am sefydliadau cymorth ar gael yn nerbynfa'r uned. Fodd bynnag, argymhellwn y dylid adolygu'r rhain yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol o ran y gwasanaeth a ddarperir yn Hafan Wen ac o ran y gwasanaethau cymorth sydd ar gael yn y gymuned. Rydym hefyd yn argymhell y dylid sicrhau bod gwybodaeth am sut i gael gafael ar y gwasanaethau eirioli ar gael.

Ni chaniatawyd i neb smygu yn yr unedau. Fodd bynnag, gellid smygu yn yr ardd gaeedig yng nghefn yr adeilad.

Roedd y cleifion yn gallu defnyddio ystafell weithgarwch a champfa fach a oedd yn cynnwys offer ymarfer corff. Fodd bynnag, gwelsom fod angen cynnal a chadw offer y gampfa ac nad oedd yn cael ei ddefnyddio ar adeg yr arolygiad. Dywedwyd wrthym gan y staff fod y cleifion yn cael eu hasesu cyn defnyddio offer y gampfa er mwyn sicrhau ei bod yn ddiogel iddynt wneud hynny.

Roedd yr uned yn cyflogi tîm o therapyddion a staff adfer. Roedd y staff therapi ac adfer y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig iawn am eu rolau ac yn awyddus i ddweud wrthym am y gweithgareddau roeddent yn eu darparu i'r cleifion. Roedd y cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol megis paentio a mynd am dro byr ar dir yr uned yng nghwmni aelodau o'r staff. Roedd y cleifion yn rhyngweithio'n dda â'r staff ar ddyletswydd yn ystod yr arolygiad.

Roedd lolfeydd ar wahân ar gyfer menywod a dynion ar gael i'r cleifion yn ogystal â lolfâ i'r ddau ryw. Roedd gan bob lolfâ gegin fach gyda chyfleusterau gwneud te/coffi, oergell a micro-don i'r cleifion eu defnyddio. Roedd llyfrau, radios a setiau teledu ar gael. Roedd lolfâ dawel hefyd ar gael i'r cleifion.

Roedd drysau clo a system intercom yn sicrhau bod yr uned yn ddiogel rhag mynediad anawdurdodedig.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai taflenni a phosteri gwybodaeth i gleifion gael eu hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol o ran y gwasanaeth a ddarperir yn Hafan Wen ac o ran y gwasanaethau cymorth sydd ar gael yn y gymuned.

Dylid sicrhau bod gwybodaeth am sut i gael gafael ar y gwasanaethau eirioli ar gael.

Dylai offer y gampfa gael ei wasanaethu neu dylid caffael offer newydd.

Urddas a pharch

Gwelsom fod staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch.

Clywsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn modd digynnwrf drwy gydol ein harolygiad. Roedd tystiolaeth fod y staff yn galw'r cleifion wrth eu hoff enw.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff a bod y staff yn gwrando arnynt ac yn cymryd yr amser i egluro agweddau

ar eu gofal. Gwelsom hyn yn cynhyrfu neu'n ystod yr arolygiad pan gymerodd y staff amser i leddfu pryderon y cleifion os oeddent yn cynhyrfu neu'n mynd yn ofidus.

Roedd gan bob un o'r cleifion eu hystafelloedd gwely eu hunain gyda chyfleusterau en-suite. Roedd yr ystafelloedd gwely yn cynnig digon o le storio ac roedd y cleifion yn gallu personoli eu hystafell gyda lluniau a phosteri. Gallai'r cleifion gloi eu hystafelloedd gwely hefyd a dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn parchu eu preifatrwydd a'u hurddas.

Roedd ffôn talu ar gael mewn ardal dawel oddi ar goridor y llawr cyntaf. Roedd y ffôn talu yn gweithio. Hefyd gallai'r cleifion ddefnyddio eu ffonau symudol eu hunain i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau.

Mae'r uned yn gweithredu polisi dim ymwelwyr a eglurir i'r cleifion cyn eu derbyn.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Gwelsom fod y cleifion yn cael gwybodaeth a chyfleoedd i drafod eu hopsiynau o ran triniaeth a gofal gyda thîm y staff.

Roedd gan yr uned ddatganiad ysgrifenedig o ddiben a chanllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth a oedd ar gael i'r cleifion. Roedd Canllaw Gwybodaeth i Gleifion hefyd wedi cael ei lunio ac roedd copïau ohono ar gael ym mhob ystafell wely

Drwy edrych ar gofnodion gofal y cleifion a siarad â'r staff a'r cleifion, gwelsom fod trefniadau ar waith i'r cleifion drafod unrhyw agwedd ar eu gofal yn ystod eu harhosiad. Cadarnhaodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod ganddynt gyfleoedd i siarad â'r staff am eu gofal.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod y staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n effeithiol â'r cleifion. Roedd y staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau, gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas i'r claf unigol.

Roedd y staff yn mynychu cyfarfodydd amlddisgyblaethol a lle y bo'n briodol, yn gweithio gyda'u prif nyrsys i adolygu a datblygu eu cynlluniau gofal a thriniaeth.

Dywedodd y staff wrthym, lle y bo'n gymwys, fod cynlluniau gofal a thriniaeth y cleifion ar gael i'r cleifion a/neu eu gofaluwr er mwyn eu helpu i ddeall eu gofal.

Cynllunio a darparu gofal

Gwelsom fod gan yr uned llwybr gofal sefydledig ar waith a oedd yn cynnwys trefniadau ar gyfer atgyfeirio, derbyn, asesu, darparu gofal a rhyddhau cleifion.

Gwnaethom adolygu sampl o bum ffeil gofal a gwelsom eu bod yn cael eu cynnal yn dda a'u bod yn hawdd dod o hyd i bethau ynddynt. Roedd y cofnodion yn gynhwysfawr, ac roedd tystiolaeth o'r defnydd o adnoddau asesu cydnabyddedig i fonitro iechyd meddwl a chorfforol. Gwelsom dystiolaeth fod adolygiadau amlddisgyblaethol yn cael eu cynnal a bod y cleifion yn cymryd rhan lawn yn y broses. Gwelsom hefyd fod cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn a bod cymorth yn cael ei roi mewn ffordd strwythuredig i alluogi'r cleifion i gyflawni nodau unigol.

Amlinellwyd y llwybr gofal yn natganiad o ddiben yr uned a chanllaw'r cleifion. Roedd yr uned yn derbyn cleifion a oedd yn byw yn ardal y bwrdd iechyd lleol a rhai o ardaloedd 'y tu allan i'r sir' cyfagos yn Lloegr. Disgrifiwyd llwybr gofal sefydledig o adeg atgyfeirio cleifion i'r uned hyd at eu rhyddhau.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Cydnabu'r uned ei chyfrifoldebau o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol.

Roedd yr uned yn darparu gofal a thriniaeth i gleifion sy'n oedolion. Roedd hyn yn unol ag amodau ei chofrestriad gydag AGIC. Gwnaeth y datganiad o ddiben ddisgrifio'n glir yr amgylchiadau lle na fyddai'r uned yn gallu darparu gwasanaethau i gleifion. Er bod cyfyngiadau o ran y rhai sy'n ymweld â'r cleifion ac o ran smygu ar y safle, roedd y rhain wedi'u nodi'n glir yn y datganiad o ddiben.

Gwelsom fod y cleifion yn cael dewis yr hyn roeddent yn ei wneud o ddydd i ddydd yn ôl eu hanghenion a aseswyd a'u dymuniadau.

Roedd y cleifion hynny sy'n defnyddio cadeiriau olwyn neu sydd ag anawsterau symudedd yn gallu cael mynediad i'r uned a symud o'i hamgylch yn dda. Roedd y cleifion yn gallu cael mynediad ar lefel wastad i'r prif adeilad ac roedd lifft ar gael ar gyfer y ddau lawr. Roedd ystafelloedd dynodedig ar gael a oedd yn gwneud mynediad yn haws i'r cleifion hynny sy'n defnyddio cadeiriau olwyn.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Roedd gan yr uned drefniadau ar waith i'r cleifion roi adborth ar eu profiadau o ddefnyddio'r gwasanaeth.

Roedd blwch awgrymiadau yn y dderbynfa/cyntedd. Gallai hwn gael ei ddefnyddio gan y cleifion i roi awgrymiadau a sylwadau ynddo am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwelsom hefyd fod y gwasanaeth wedi ceisio barn cleifion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau gyda'r nod o nodi a gwneud gwelliannau fel y bo'n briodol.

Gwelsom fod ymweliad monitro ansawdd wedi cael ei gynnal ar gyfer y gwasanaeth o fewn y chwe mis diwethaf fel sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau. Gwelsom fod y gwasanaeth wedi gofyn am safbwyntiau'r staff a'r cleifion a bod adroddiad ysgrifenedig wedi cael ei lunio, a oedd yn cynnwys cynllun gweithredu i wneud gwelliannau.

Roedd polisi a gweithdrefn gwyno ar waith. Mae'r polisi yn cynnig strwythur i ymdrin â chwynion cleifion.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod systemau ar waith i gadw'r cleifion yn ddiogel ac i ddarparu'r gofal a oedd yn effeithiol.

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risg, iechyd a diogelwch a rheoli heintiau. Roedd hyn yn galluogi'r staff i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol. Fodd bynnag, roedd angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas ag asesiadau risg o ran pwyntiau clymu.

Gwelsom fod angen adnewyddu'r uned. Cawsom ein hysbysu bod cynllun adnewyddu wedi cael ei lunio. Nodwyd hefyd bod angen gwella'r trefniadau glanhau.

Roedd pryddau yn cael eu paratoi ar y safle a dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn mwynhau'r bwyd a oedd yn cael ei ddarparu.

Roedd y driniaeth glinigol yn cael ei harwain gan seiciatrydd ymgynghorol a gwelsom fod gwaith tîm amlddisgyblaethol effeithiol yn cael ei arfer.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Yn ystod taith o amgylch yr uned, ni nodwyd unrhyw beryglon cyffredinol i ddiogelwch y cleifion neu'r staff. Fodd bynnag, nodwyd nifer o risgiau o ran pwyntiau clymu y tu mewn a'r tu allan i'r uned. O ganlyniad, rydym yn awgrymu'n gryf y dylid cynnal asesiad risg o ran pwyntiau clymu ac y dylid rhoi mesurau ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau a nodwyd. Rydym hefyd yn awgrymu y dylid darparu torwyr pwyntiau clymu ychwanegol a'u rhoi mewn lleoliad mwy hygyrch.

Roedd systemau diogelwch ar waith i atal mynediad anawdurdodedig i mewn ac allan o'r uned.

Roedd prosesau ar waith i reoli ac adolygu risgiau, a chynnal iechyd a diogelwch y cleifion, y staff a gweithwyr proffesiynol oedd yn ymweld â'r uned.

Gwnaethom argymell, yn ystod y gwaith o adnewyddu'r uned yn y dyfodol, y dylid rhoi ystyriaeth i ddarparu cwareli gwyllo ar ddrysau'r ystafelloedd gwely er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar gleifion yn ystod archwiliadau rheolaidd y staff. Gwnaethom hefyd argymell y dylid rhoi ystyriaeth i osod drysau â cholfachau dwbl sy'n agor tuag at i mewn ac allan i ardaloedd yr ystafell wely a'r ystafell ymolchi er mwyn gwella mynediad mewn argyfwng.

Fel y disgrifiwyd yn gynharach, gallai cleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn a'r rhai ag anawsterau symudedd gael mynediad i'r uned a'i defnyddio.

Roedd ardaloedd yn yr ardd y gallai'r cleifion eu defnyddio, gyda chymorth y staff. Roedd ardal smygu awyr agored ddynodedig hefyd wrth ymyl yr uned, y gallai'r cleifion ei defnyddio.

Dywedwyd wrthym fod y gwasanaethau glanhau yn cael eu darparu drwy gcontract gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Er bod yr uned yn gymharol daclus gwelsom fod angen gwneud rhai gwelliannau o ran glendid. Felly, rhaid i'r personau cofrestredig adolygu'r trefniadau ar gyfer glanhau er mwyn sicrhau bod yr uned yn cael ei chadw'n lân bob amser. Tynnwyd sylw at y mater hwn fel maes i'w wella yn ystod yr arolygiad blaenorol o'r uned.

Cawsom ein hysbysu bod cynllun gweithredu manwl wedi cael ei lunio mewn perthynas ag adnewyddu'r uned a bod y broses wedi cael ei gohirio am fod angen adnewyddu les yr adeilad gyda'r bwrdd iechyd. Roedd disgwyl i'r broses hon gael ei chwblhau yn y dyfodol agos iawn a rhagwelwyd y byddai rhaglen adnewyddu gynhwysfawr yn cael ei rhoi ar waith wedyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai asesiad risg o ran pwyntiau clymu gael ei gynnal a dylai mesurau gael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd.

Dylid darparu torwyr pwyntiau clymu ychwanegol a'u rhoi mewn man mwy hyblyg yn yr uned.

Yn ystod y gwaith o adnewyddu'r uned yn y dyfodol, dylid rhoi ystyriaeth i ddarparu cwareli gwyllo ar ddrysau'r ystafelloedd gwely er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar gleifion yn ystod archwiliadau rheolaidd y staff.

Dylid rhoi ystyriaeth i osod drysau â cholfachau dwbl sy'n agor tuag at i mewn ac allan i ardaloedd yr ystafell wely a'r ystafell ymolchi er mwyn gwella mynediad mewn argyfwng.

Dylai'r trefniadau ar gyfer glanhau'r uned gael eu hadolygu.

Rhaid i'r darparwr fwrw ymlaen â'r cynlluniau i adnewyddu'r adeilad cyn gynted ag y bydd y bwrdd iechyd wedi cytuno ar y les.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ar waith i reoli'r risg o haint.

Roedd y brif nyrs yn gyfrifol am gynnal archwiliadau rheoli heintiau ac wedi datblygu nifer o adnoddau er mwyn ei helpu gyda'r dasg hon. Cwblhawyd yr archwiliad rheoli heintiau diweddaraf ym mis Hydref 2018. Cawsom gopi o'r archwiliad a oedd yn dangos bod rhai meysydd i'w gwella wedi cael eu nodi a bod cynllun gweithredu wedi cael ei lunio.

Gwelsom fod y cleifion yn storio bwyd a diod yn yr oergelloedd a oedd yn y ceginau bach yn y lolfeydd. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnodion ar gael i ddangos bod tymereddau'r oergelloedd yn cael eu cofnodi yn rheolaidd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai tymheredd yr oergelloedd yn y lolfaf/cegin fach gael ei gofnodi a'i fonitro yn rheolaidd.

Maeth

Defnyddiwyd adnodd sgrinio ar sail tystiolaeth i asesu anghenion deietegol y cleifion ar adeg eu derbyn i'r uned. Roedd y cleifion yn cael eu pwysu ar adeg eu derbyn a defnyddiwyd mynegai crynswth corfforol (BMI) ac adnoddau sgrinio cyffredinol diffyg maethiad (MUST), i gadarnhau a oedd eu pwysau yn briodol o ran eu taldra.

Roedd prydau'n cael eu paratoi yn y brif gegin yn yr uned ac roedd dewis o ddau bryd bwyd ar gael i'r cleifion yn ystod pob pryd. Hefyd, gallai'r cleifion ofyn am rywbeth amgen ac roeddent yn cael eu hannog a'u helpu i baratoi byrbrydau a diodydd gan ddefnyddio'r tecelli a'r ffyrnau micro-don yn y ceginau bach. Roedd y cleifion yn gadarnhaol iawn am y prydau a ddarparwyd.

Roedd y cleifion yn cael rhywfaint o gyngor ar fwyta'n iach a pharatoi prydau. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell y dylid rhoi cymorth ac arweiniad ychwanegol mewn perthynas â datblygu sgiliau bywyd, yn enwedig o ran hunanofal, maeth a chynllunio bwydlenni.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai cymorth ac arweiniad ychwanegol gael ei ddarparu mewn perthynas â datblygu sgiliau bywyd, yn enwedig o ran hunanofal, maeth a chynllunio bwydlenni.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gan yr uned drefniadau ar waith i reoli meddyginiaethau yn ddiogel gyda pholisi ysgrifenedig ar gael i dywys staff drwy'r broses o storio, rhagnodi a rhoi meddyginiaethau yn ddiogel. Roedd y staff a oedd yn gweithio yn yr uned yn gallu gofyn i fferylllydd y bwrdd iechyd lleol am help a chynghor ar faterion yn ymwneud â meddyginiaeth.

Roedd y meddyginiaethau'n cael eu storio'n ddiogel ac roedd trefniadau ar waith ar gyfer gwirio a chofnodi cyffuriau a reolir.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion rhoi meddyginiaeth a gwelsom eu bod wedi'u cwblhau'n gywir.

Roedd ystafell ar wahân lle y gallai arsylwadau'r cleifion gael eu cynnal (pwls, pwysedd gwaed a chyfradd anadlu) a lle y gallent drafod â staff gofal iechyd unrhyw bryderon a allai fod ganddynt ynghylch diddyfnu¹. Roedd y trefniant hwn yn arfer yr oedd yn werth tynnu sylw ato yn ein barn ni.

Roedd y cleifion yn cael hyfforddiant ar gymryd Naloxone cyn cael eu rhyddhau. Mae Naloxone yn gyffur a all wrthdroi effeithiau gorddos o opiadau dros dro, sy'n rhoi mwy o amser i ambiwlans gyrraedd a rhoi triniaeth. Nodwyd bod yr hyfforddiant hwn a roddir i'r cleifion yn arfer y mae'n werth tynnu sylw ato.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

¹Mae diddyfnu yn cyfeirio at symptomau y gall cleifion eu profi pan fyddant yn ddibynnol ar sylwedd (megis alcohol a chyffuriau) a phan fyddant wedyn yn lleihau'r defnydd o'r sylwedd hwnnw yn eithafol neu'n rhoi'r gorau yn sydyn i'w gymryd.

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn diogelu oedolion a phlant a oedd yn agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn. Roedd y brif nyrs yn gyfrifol am oruchwylio'r prosesau diogelu yn Hafan Wen, ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant addas ar y pwnc.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Roedd cyfarpar dadebru ar gael i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf (yn llewygu). Roedd cofnodion yn dangos bod y staff yn gallu gwirio'r cyfarpar hwn yn wythnosol er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Roedd y staff hefyd yn gallu cael gafael ar gyfarpar a meddyginiaeth, a oedd yn cael eu cadw ar wahân i'r cyfarpar dadebru, y dylid ei ddefnyddio pe bai claf yn cael ffit. Roedd cofnodion yn dangos bod y staff hefyd yn gwirio'r cyfarpar hwn yn wythnosol er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod y gofal a'r driniaeth yn yr uned wedi'u seilio ar arfer yn seiliedig ar dystiolaeth.

Roedd y driniaeth glinigol yn yr uned yn cael ei harwain gan seiciatrydd ymgynghorol a dywedwyd wrthym fod y protocol dadwenwyno a oedd yn cael ei ddefnyddio wedi cael ei ddatblygu ar y cyd â'r bwrdd iechyd lleol. Disgrifiwyd a dangoswyd y cysylltiadau cefnogol â thimau cymunedol a'r bwrdd iechyd lleol. Gwelsom fod tîm y staff yn defnyddio adnodd Asesiad Diddyfnu oddi wrth Alcohol y Sefydliad Clinigol (CIWA) er mwyn asesu a rheoli'n ofalus y cleifion hynny sy'n cael eu diddyfnu oddi wrth alcohol.

Roedd y rhaglen therapiwtig a oedd wedi ei hanelu at gefnogi cleifion drwy ddadwenwyno yn cael ei harwain gan weithwyr therapiwtig. Disgrifiwyd ystod o ddulliau seicogymdeithasol yn seiliedig ar dystiolaeth megis therapi ymddygiad gwybyddol, ymwybyddiaeth ofalgar a therapi derbyn ac ymrwymo.

Eglurodd y staff uwch fod tîm y staff yn cynnwys nyrsys cofrestredig sydd â phrofiad o gyflyrau iechyd corfforol. Eglurwyd bod y dull gweithredu hwn yn fuddiol wrth wella ac ehangu set sgiliau'r tîm a lefel y gwasanaeth a gynigir i'r cleifion.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd system profi cyffuriau ôl bysedd yn cael ei threialu yn yr uned ar adeg yr arolygiad.

Rheoli gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd prosesau rheoli a chyfleu gwybodaeth da ar waith ar gyfer cofnodi digwyddiadau, archwiliadau clinigol a llywodraethu, adnoddau dynol a systemau eraill, a oedd yn helpu wrth reoli a chynnal y gwasanaeth.

Rheoli cofnodion

Roedd systemau cofnodion y cleifion wedi'u datblygu'n dda ac yn rhoi gwybodaeth o ansawdd uchel ar ofal cleifion unigol.

Roedd y system yn gynhwysfawr, yn hygyrch ac yn ymateb i'r claf ac roedd y wybodaeth yn cael ei mewnbynnu gyda ffocws ar gynnal y d.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Nid yw'r uned yn derbyn cleifion sy'n cael eu cadw neu sy'n destun cyfyngiadau neu oruchwyliaeth o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Eglurir hyn yn y Datganiad o Ddiben a Chanllaw'r Cleifion.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Adolygwyd cynlluniau gofal pum claf i gyd. Er nad oedd dim un o'r cleifion a oedd yn byw yn Hafan Wen ar adeg yr arolygiad yn destun gofal neu'n cael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl, gwelsom fod y cynlluniau gofal sy'n cael eu defnyddio yn adlewyrchu'r meysydd unigol a amlinellir ym Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, gydag amcanion mesuradwy ac roeddent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Gwelwyd tystiolaeth bod cydgysylltwyr gofal, lle y bo'n briodol, wedi cael eu henwi ar gyfer y cleifion a bod aelodau o'r teulu yn rhan o'r trefniadau cynllunio gofal.

Roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth Unigol yn tynnu ar gryfderau a galluoedd y claf ac yn canolbwyntio ar wellhad, adsefydlu ac annibyniaeth y claf. Roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth hefyd yn cynnwys cofnod da o fonitro iechyd corfforol a hybu iechyd.

Er mwyn cefnogi Cynlluniau Gofal a Thriniaeth i gleifion, roedd amrywiaeth helaeth o asesiadau cleifion er mwyn nodi a monitro'r gofal cleifion a ddarperir, ynghyd ag asesiadau risg sy'n nodi'r risgiau a nodwyd a sut i'w lliniaru a'u rheoli.

Y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid

Disgwylir i bob claf a dderbynnir i'r uned feddu ar alluedd meddyliol llawn. Ni chaiff y cleifion eu cadw na'u rhwystro mewn unrhyw ffordd ac maent yn rhydd i adael yr uned unrhyw bryd.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Drwy drafodaethau â'r staff ac arsylwadau, daethom i'r casgliad bod arweinyddiaeth a rheolaeth dda yn yr uned. Gwelsom waith tîm da a siaradodd y staff yn gadarnhaol am y cymorth a gynigir gan uwch reolwyr, rheolwyr yr uned a chydweithwyr.

Gwelsom fod y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal cleifion i safonau uchel a thrwy gydol yr arolygiad roeddent yn barod i dderbyn ein safbwyntiau, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Roedd prosesau ar waith i'r staff gael arfarniad blynyddol a chwblhau hyfforddiant gorfodol.

Roedd y tîm amlddisgyblaethol yn cael effaith gadarnhaol ar ofal a thriniaeth y cleifion yn yr uned.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd yr uned yn cael ei gweithredu gan CAIS Cyf, elusen gofrestredig a chwmni cyfyngedig drwy warant. Yn unol â'r rheoliadau, roedd unigolyn cyfrifol a rheolwr cofrestredig wedi'u penodi. Roedd y rheolwr cofrestredig yn gyfrifol am reoli'r uned o ddydd i ddydd. Roedd gan yr unigolyn cyfrifol, ynghyd â staff rheoli eraill, rôl reoli ehangach o fewn CAIS. Disgrifiwyd a dangoswyd llinellau dirprwyo clir, atebolrwydd a dull rhoi gwybod am ddigwyddiad yn yr uned a'r sefydliad yn ehangach.

Disgrifiwyd system o weithgarwch gwella ansawdd a gwelsom enghreifftiau o archwiliadau clinigol a oedd wedi cael eu cynnal a chymau gweithredu a oedd wedi cael eu cymryd mewn ymateb i ganfyddiadau. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau o gofnodion rhoi meddyginiaeth a chofnodion gofal y cleifion.

Roedd yr ymweliadau monitro ansawdd yn cael eu cynnal fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Roedd systemau ar waith i'r cleifion roi adborth ar eu profiadau o

ddefnyddio'r gwasanaeth ac i godi pryderon (cwynion) am eu gofal a'u triniaeth. Gallai'r rhain nodi ble y gellid gwneud newidiadau, gyda'r nod o wneud gwelliannau fel y bo'n briodol, ynghyd â meysydd o foddhad a gwerthfawrogiad y cleifion y gellid eu rhannu â'r timau o staff.

Fel y crybwyllwyd eisoes, roedd gan y gwasanaeth ddatganiad o ddiben a chanllaw i gleifion fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn nodi'r gwasanaethau a ddarperir, y trefniadau ar gyfer darparu'r gwasanaethau hynny a gwybodaeth arall i'r cleifion am gyfleusterau'r uned.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gan yr uned weithdrefn gwyno (pryderon) fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Arddangoswyd gwybodaeth am sut y gallai'r cleifion wneud cwyn yn y dderbynfa. Roedd y weithdrefn i'w dilyn, gan gynnwys manylion cyswllt AGIC, hefyd wedi'u cynnwys yn y datganiad o ddiben fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Roedd crynodeb o'r weithdrefn gwyno hefyd wedi ei gynnwys yng nghanllaw'r cleifion a'r llyfryn Gwybodaeth i Gleientiaid.

Dywedodd y staff uwch wrthym fod yr uned yn anelu at ymateb i gwynion (pryderon) mewn ffordd amserol. Gwnaethant hefyd gadarnhau bod y cofnodion o gwynion yn cael eu cadw a disgrifiwyd proses ar gyfer cydnabod cwynion, ymchwilio ac ymateb iddynt. Ar gyfer cwynion cymhleth, y gall gymryd mwy o amser i ymchwilio iddynt, disgrifiodd staff uwch broses ar gyfer sicrhau bod achwynwyr yn cael y newyddion diweddaraf am gynnydd eu cwynion.

Disgrifiodd yr uwch staff system ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau, eu cofnodi ac ymchwilio iddynt. Dywedwyd wrthym y byddai dysgu o ddigwyddiadau yn cael ei rannu â'r staff mewn cyfarfodydd wythnosol.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Gwelsom waith tîm da yn yr uned. Ar adeg ein hymweliad, dim ond nifer fach o swyddi gwag oedd ac roedd cyfraddau salwch y staff yn isel. Defnyddiwyd staff asiantaeth yn rheolaidd os oedd prinder staff. Roedd hyn yn golygu bod tîm sefydlog o staff yn gofalu amdanynt.

Gwnaethom adolygu hyfforddiant i'r staff a nodwyd bod rhaglen orfodol ar waith i bob aelod o'r staff. Roedd systemau ar waith i fonitro cyfraddau cwblhau ac roedd y broses o adolygu'r wybodaeth yn rheolaidd gan y tîm rheoli yn sicrhau bod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn gyson. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu cael hyfforddiant ychwanegol a pherthnasol.

Dangosodd arolygiad o sampl o chwech o ffeiliau'r staff fod yr unigolion yn cael arfarniadau blynyddol, wedi eu dogfennu. Roedd system goruchwyllo staff ffurfiol ar waith yn ogystal â throsolwg anffurfiol o ddydd i ddydd gan y tîm rheoli. Dywedodd y staff wrthym fod y tîm rheoli yn gyfeillgar a'u bod yn weladwy a bod dull drws agored ar waith. Hefyd, roedd cyfarfodydd staff rheolaidd yn cael eu cynnal lle y gallai'r staff drafod unrhyw faterion o ddiddordeb neu bryder.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod y lefelau staffio yn ddigonol o gofio lefel y ddibyniaeth ar adeg yr arolygiad. Cawsom ein hysbysu gan y rheolwr cofrestredig fod rotâu y staff wedi'u cynllunio yn y fath fodd fel y gellid ymdopi ag unrhyw absenoldebau ar fyr rybudd, heb effeithio'n andwyol ar lefel y gwasanaeth a ddarperir.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

O'r ffeiliau staff a welsom, roedd yn amlwg bod prosesau recriwtio staff ffurfiol ar waith. Cyn cyflogaeth, roedd geirdaon staff yn cael eu derbyn, roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal ac roedd cymwysterau proffesiynol yn cael eu cadarnhau. Roedd y broses hon yn cael ei rheoli gan dîm adnoddau dynol canolog y sefydliad.

Roedd staff newydd eu penodi yn cael eu sefydlu am gyfnod o amser o dan oruchwyliaeth y penaethiaid gofal.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysylltu a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn cael eu cynnal yn ddirybudd fel arfer. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a gweithredu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [gwasanaethau iechyd meddwl](#) a [gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: CAIS Ltd

Ward/uned(au): Hafan Wen

Dyddiad arolygu: 14, 15, 16 Ionawr 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym pa gamau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylai taflenni a phosteri gwybodaeth i gleifion gael eu hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol o ran y gwasanaeth a ddarperir yn Hafan Wen ac o ran y gwasanaethau cymorth sydd ar gael yn y gymuned.	Rheoliad 15. 3. Hybu, diogelu a gwella iechyd	Archwiliad misol i'w gynnal o bob taflen a phoster a rhoi deunydd cyfredol yn lle unrhyw hen ddeunydd.	Prif nyrs Tîm adfer	1 Ebrill; 2019
Dylid sicrhau bod gwybodaeth am sut i gael gafael ar y gwasanaethau eirioli ar gael.		Wedi cysylltu â Gwasanaeth Eirioli Gogledd Cymru. Bydd gwybodaeth am sut i gael gafael ar y gwasanaethau ar	Dirprwy reolwr	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		gael yn y dderbynfa.		
Dylai offer y gampfa gael ei wasanaethu neu ei ddisodli.		Yn aros am ddyddiadau ar gyfer adnewyddu lle y caiff offer y gampfa ei gynnwys.	Cyfarwyddwyr Cais. Rheolwr	1 Awst 2019
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Dylai asesiad risg o ran pwyntiau clymu gael ei gynnal a dylai mesurau gael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodwyd.	Rheoliad 19. 22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch	Cysylltu ag Iechyd a Diogelwch Cais i gynnal asesiad risg o ran pwyntiau clymu a cheisio cyngor proffesiynol i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau.	Rheolwr	1 Ebrill 2019
Dylid darparu torwyr pwyntiau clymu ychwanegol a'u rhoi mewn man mwy hyblyg yn yr uned.	12. Amgylchedd 4. Trefniadau Cynllunio at Argyfyngau	Mae torwyr pwyntiau clymu wedi cael eu prynu a'u gosod ar ddau lawr yr adeilad mewn man canolog.	Rheolwr	Cwblhawyd
Yn ystod y gwaith o adnewyddu'r uned yn y dyfodol, dylid rhoi ystyriaeth i ddarparu cwareli gwyllo ar ddrysau'r ystafelloedd gwely er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar gleifion yn ystod archwiliadau rheolaidd y staff.		Yn ystod y cyfnod ymgynghori â chyfarwyddwyr Cais, y staff a'r cleifion, ystyriwyd urddas a phreifatrwydd. Yn ystod archwiliadau nos mae angen i'r staff fynd yn agos at y person, er mwyn cynnal arsylwadau i fonitro cyfradd anadlu a rhythm. Fodd bynnag, cymerir camau i leihau lefelau unrhyw sŵn drwy		

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylid rhoi ystyriaeth i osod drysau â cholfachau dwbl sy'n agor tuag at i mewn ac allan i ardaloedd yr ystafell wely a'r ystafell ymolchi er mwyn gwella mynediad mewn argyfwng.		gynnal a chadw drysau yn rheolaidd. Yn ystod y gwaith adnewyddu cynigiwyd addasu'r drysau yn y ddwy ystafell i bobl anabl ac un ystafell arall a rhoi colfach dwbl arnynt. Gan fod y coridorau yn gul ac am resymau iechyd a diogelwch nid yw'n ymddangos yn briodol eu gosod ym mhob ystafell.		
Dylai'r trefniadau ar gyfer glanhau'r uned gael eu hadolygu.		Cyfarfod wedi ei gynnal gyda darparwyr y gwasanaeth glanhau i wella safonau ar unwaith, ac i archwiliadau rheolaidd gael eu cynnal gan oruchwylywyr glanhau. Adolygu ymhen 6 wythnos.	Rheolwr	1 Ebrill 2019
Dylai tymheredd yr oergelloedd yn y lolfa/cegin fach gael ei gofnodi a'i fonitro yn rheolaidd.	Rheoliad 15. 13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi	Y staff i fonitro tymereddau pob oergell yn y lolfeydd ddwywaith y dydd a'u cofnodi.	Rheolwr Rheolwr Arlwyo	Cwblhawyd
Dylid rhoi cymorth ac arweiniad ychwanegol mewn perthynas â datblygu sgiliau bywyd, yn enwedig o ran hunanofal, maeth a chynllunio bwydlenni.	14. Maeth	Bwriedir creu grŵp a fydd yn ymwneud â sgiliau bywyd a chaiff ei gyflwyno fel rhan o'r rhaglen seicogymdeithasol.	Prif nyrs Tîm adfer	1 Ebrill 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Dim angen gwelliant.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolwr o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): **Melanie Garbutt**

Swydd: **Rheolwr Cofrestredig**

Dyddiad: **26-02-2019**